

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	Tachwedd 22ain 2016
TEITL	Tirweddau'r Dyfodol Cymru
PWRPAS	Gwybyddu Aelodau
AWDUR	Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr Wybodaeth

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

2.0 YR ADOLYGIAD O DIRWEDDAU DYNODEDIG

- 2.1 Yn 2014 penodwyd Panel gan Lywodraeth Cymru i gynnal Adolygiad o Dirweddau Dynodedig Cymru, Roedd Cam 1 o'r Adolygiad yn edrych ar bwmpas y tirluniau dynodedig a manteision/ anfanteision categoriedd Tirluniau Dynodedig Cymru o dan un math o ddynodiad. Roedd Cam 2 o'r Adolygiad yn ystyried y modd mae'r Parciau Cenedlaethol a'r AHNE yn cael eu rheoli a'u llywodraethu.
- 2.2 Gwnaed sylwadau ar yr Adolygiad gan AHNE Cymru, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a nifer o sefydliadau, elusennau, a chyrrff cyhoeddus a phreifat eraill (yn cynnwys y Cydbwyllgor hwn). Yn ogystal, cynhaliodd y Panel nifer o gyfarfodydd trafod gydag unigolion a sefydliadau.

3.0 ADRODDIAD YR ADOLYGIAD

- 3.1 Cyflwynwyd Adroddiad Terfynol y Panel i Lywodraeth Cymru yn Hydref 2015. Roedd yn Adroddiad swmpus yn cynnwys llawer o argymhellion manwl, roedd rhai o'r argymhellion yn cyfeirio at faterion egwyddorol a gweithredu y gallesid fod wedi eu cynnwys mewn Atodiad.
- 3.2 Ar ôl derbyn yr Adroddiad Terfynol bu i Lywodraeth Cymru benderfynu sefydlu rhaglen ddatblygu **Tirweddau Dynodedig Cymru**. Pwrpas y rhaglen yma fyddai ystyried yr Adroddiad a materion eraill perthnasol fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

4.0 TIRWEDDAU'R DYFODOL CYMRU

- 4.1 Penodwyd yr Arglwydd Dafydd Ellis-Thomas yn Gadeirydd ar y broses hon a chynhaliwyd cyfarfod cychwynnol gyda rhanddeiliaid amrywiol yng Nghaerdydd yn mis Tachwedd 2015. Yn dilyn hynny sefydlwyd Grŵp Datblygu (swyddogion ac aelodau yn bennaf) a Gweithgor (academyddion a grwpiau arbenigol yn

bennaf). Penderfynwyd edrych ar 4 maes penodol o ran y Tirweddau Dynodedig sef:

- **Gweledigaeth**
- **Llywodraethau/ Rheoli**
- **Adnoddau**
- **Economi**

- 4.2 Yn dilyn hynny bu proses eithaf manwl o hyfforddiant, datblygu syniadau, trafod opsiynau a phenderfynu ar ddewisiadau (Rhagfyr 2015- Mehefin 2016). Penllanw rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru oedd cyfarfod yng Nghaerdydd ar yr 20fed o Fehefin. Yn y cyfarfod hwn penderfynodd yr holl aelodau ar Weledigaeth ar gyfer y Tirweddau'r Dyfodol yn ogystal â mesurau gweithredu yn y meysydd gwaith a nodir uchod.
- 4.3 Yn dilyn hynny mae grŵp bychan wedi bod yn gweithio ar dynnu holl waith y rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru at ei gilydd mewn dogfen fyddai yn gosod cyfeiriad at y dyfodol a mesurau ar gyfer y meysydd gwaith. Hefyd gosod y mesurau mewn trefn blaenoriaeth o ran gweithredu – Tymor Byr, Canolig a Hir.
- 4.4 Anfonwyd copi o'r Adroddiad Terfynol drafft allan ddiwedd Hydref a chopi o Atodiad gyda mwy o fanylion o ran gweithredu ychydig yn ddiweddarach (Copïau ar gael gan y Gwasanaeth AHNE os dymunir).
- 4.5 Roedd y Gweithgor a sefydlwyd fel rhan o'r broses gyda'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas yn cadeirio yn ystyried y ddogfen drafft ar Dachwedd y 10fed. Hefyd mae cyfle i wneud sylwadau "o sylwedd" ar yr adroddiad draft erbyn Rhagfyr 1af.
- 4.6 Rhoddir diweddariad pellach ar y mater yn y cyfarfod.

5.0 ARGYMHELLIAD

- 5.1 Derbyn yr wybodaeth